

Symud Freeview i sicrhau bod mwy o donnau awyr ar gael ar gyfer darpariaeth symudol - y 'Rhaglen Clirio 700 MHz'

Diweddariad: 4 Ebrill 2019

Mae'r galw am ddata symudol gan ddefnyddwyr yn uwch nag erioed ac mae disgwyl i'r galw hwn barhau i gynyddu'n sylweddol dros y degawd nesaf. I ymdopi â'r cynnydd hwn mewn galw, mae adran ychwanegol o'r tonnau awyr - a elwir 'y band 700 MHz' - yn cael ei sicrhau ar gyfer defnydd band eang symudol yn y dyfodol.

Drwy agor y band 700 MHz, bydd modd i rwydweithiau symudol ddarparu gwasanaethau newydd a gwell i helpu i ateb y galw am ddata symudol, sy'n cynyddu'n gyflym. Bydd y broses yn [cyflawni hyd at amcangyfrif o fanteision gwerth £1.3 biliwn i'r DU](#).

Caiff y band 700 MHz ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ddarlledu teledu daearol digidol, a gaiff ei adnabod yn gyffredin fel Freeview.¹ Caiff ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cyfathrebu di-wifr ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Er mwyn sicrhau bod y band ar gael ar gyfer band eang symudol yn y blynyddoedd i ddod, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu symud i amleddau eraill. Gelwir hyn y '**Rhaglen Clirio 700 MHz**'.

Dylai'r gwylwyr a effeithir wirio a ydynt wedi colli gwasanaeth ar unrhyw sianelau, yn cynnwys eu sianelau teledu lleol a theledu Manylder Uwch. Os oes gwasanaethau ar goll pan fydd y newidiadau hyn yn digwydd yn eu hardal, dylai'r rhan fwyaf o wylwyr allu adfer y sianelau hyn drwy aildwio eu setiau teledu neu eu blychau pen-set.² Mae sianelau teledu lleol ar gael ar sianel rhif 7 neu 8³ ar eich teclyn rheoli teledu ac mae'r sianelau Manylder Uwch ar gael ar sianel 101 i fyny (ar gael ar gyfer teledu gyda logo Freeview HD a rhai darparwyr Teledu Daearol Digidol eraill fel YouView a BT TV). Mae'n bosibl y bydd angen i leiafrif bach iawn o wylwyr - amcangyfrif o lai nag 1% o aelwydydd - osod erial newydd ar eu to er mwyn parhau i dderbyn gwasanaethau. Mae cymorth ar gael i'r gwylwyr hyn (gweler y wybodaeth isod). Bydd rhai gwasanaethau, yn bennaf sianeli +1 a chyd-ddarllediadau Manylder Uwch o sianeli Manylder Safonol, yn rhoi'r gorau i ddarlledu o drosglwyddydd Caradon Hill ar ôl cwblhau'r broses clirio yn y grŵp trosglwyddyddion hwn. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â Freeview.

Bydd pob ardal yn y DU yn cyflwyno'r newid ar adeg wahanol. Mae'r map isod yn cyflwyno darlun syml o pryd bydd gwahanol ardaloedd yn y DU yn dechrau gweld newidiadau'n digwydd. Dechreuodd y broses mewn rhannau o'r Alban yn 2017. Ar hyn o bryd mae disgwyl i'r rhaglen ddod i ben yn Ch2 2020. Cyhoeddodd Ofcom [adolygiad ym mis Rhagfyr 2018 yn cadarnhau bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni'r nod hon](#).

Gwaith ar drosglwyddyddion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

¹ Mae'r llwyfan daearol digidol hefyd yn cynnwys gwasanaethau YouView, TalkTalk TV a BT TV.

² Gall y ddarpariaeth o wasanaethau teledu lleol newid mewn nifer bach o ardaloedd.

³ Fel rheol mae'r teledu lleol ar sianel 7 yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac ar sianel 8 yng Nghymru a'r Alban.

Fel rhan o'r rhaglen glirio 700 Mhz, mae newidiadau'n cael eu gwneud i drosglwyddyddion mewn sawl ardal yn y DU. Bydd cam nesaf y newidiadau'n parhau hyd at fis Mehefin 2019. Bydd rhaid i'r rhan fwyaf o wylwyr daearol digidol sydd wedi tiwnio i'r trosglwyddyddion canlynol neu eu trosglwyddyddion ategol aildiwnio er mwyn parhau i dderbyn yr holl wasanaethau sydd ar gael: Caradon Hill (rhaid trosglwyddyddion ategol yn unig), trosglwyddyddion ategol Aberdâr, Black Hill (South Knapdale), Bristol Illchester Crescent, Bristol Kings Weston, Huntshaw Cross, Kilvey Hill, Mendip, Plympton, Pont-y-pŵl, Redruth a Wenvoe.

Rydym yn annog y gwylwyr yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio i wirio a yw'r newidiadau i'r trosglwyddyddion hyn wedi effeithio ar eu gwasanaeth Freeview, gan gynnwys eu sianelau teledu lleol, ac aildiwnio eu teledu neu eu blychau pen-set os ydynt wedi colli gwasanaeth. Gall gwylwyr wirio ymlaen llaw a oes newidiadau'n digwydd yn eu hardal drwy ddefnyddio'r gwiriwr aildiwnio yn www.freeview.co.uk/tvchanges

Mae ymgyrchoedd gwybodaeth lleol yn paratoi pobl ar gyfer y newidiadau wrth iddynt ddigwydd ym mhob ardal. Mae gwybodaeth am y newidiadau hyn ar gael ar [wefan Freeview, gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg](#). Hefyd gall y gwylwyr gael cefnogaeth gan Linell Gyngor Freeview ar Radffon 0808 100 0288. Gweler [cod gwasanaeth sy'n esbonio'r cymorth y gall gwylwyr ei ddisgwyl yn ystod y rhaglen glirio 700 MHz](#).

Ffigur 1. Amserlen arfaethedig gyfredol ar gyfer rhaglen clirio 700 MHz

- Q1/Q2 2017
- Q3/Q4 2017
- Q1/Q2 2018
- Q3/Q4 2018
- Q1/Q2 2019
- Q3/Q4 2019
- Q1/Q2 2020

